# Crëwr Cynnwys, Cymru

## Manylion y Rôl

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod y Swydd:** | 21772 | **Cyflog:** | £26,642 - £29,659 (Gradd 5) |
| **Patrwm Gwaith:** | Llawn amser (37 awr yr wythnos) | | |
| **Hyd:** | Parhaol | | |
| **Lleoliad:** | Wedi'i lleoli yn Swyddfa'r Brifysgol Agored yng Nghymru, Caerdydd, ond yn gweithio patrwm hybrid | | |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | Mae disgwyl i ddeiliad y swydd deithio i leoliadau eraill o fewn y DU o bryd i'w gilydd pan fo angen. | | |
| **Dyddiad Cau ar gyfer Ceisiadau:** | Hanner dydd, 29 Hydref 2024 | | |
| **Y Gymraeg:** | Ar gyfer y rôl hon, mae'r gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddymunol | | |

## Y Rôl

Bydd deiliad y rôl hon yn helpu i godi ymwybyddiaeth o frand y Brifysgol Agored drwy gysylltu â chynulleidfaoedd targed drwy greu cynnwys digidol creadigol, diddorol a bachog. Gan weithio fel rhan o'n tîm Marchnata, Cyfathrebu a Phartneriaethau (MarCommsPar), bydd deiliad y rôl yn dilyn briffiau creadigol i ddarparu cynnwys diddorol o ansawdd uchel ar gyfer ein hymgyrchoedd ar-lein, gwefannau, llwyfan OpenLearn a phroffiliau ar y cyfryngau cymdeithasol.

## Cyfrifoldebau Allweddol

- Creu a golygu cynnwys digidol, gan gynnwys tudalennau gwe, fideos, graffeg a sain.
- Helpu i godi ymwybyddiaeth o'n brand i sawl cynulleidfa drwy greu cynnwys ar gyfer digwyddiadau byw, sesiynau holi ac ateb, podlediadau a chyfweliadau fideo a thystebau.

- Gweithio gyda'r tîm i greu a rheoli cynnwys ar gyfer ein gwefan, ein negeseuon e-bost, a'n llwyfannau ar y cyfryngau cymdeithasol
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu adnoddau dysgu ar-lein am ddim ar lwyfan OpenLearn
- Gweithio gyda'r tîm MarCommsPar i greu syniadau creadigol ar gyfer cynnwys newydd
- Cydgysylltu â rhanddeiliaid priodol, yn fewnol ac yn allanol, i gasglu gwybodaeth berthnasol i ddatblygu adnoddau newydd
- Gweithio gyda'n Cyfadrannau a chydweithwyr eraill er mwyn creu cynnwys i fodloni amcanion Y Brifysgol Agored yng Nghymru
- Unrhyw weithgareddau rhesymol eraill sy'n helpu i gefnogi gwaith creadigol marchnata a chyfathrebu ehangach

Disgwylir i bob aelod o'r staff wneud y canlynol:

- Cydymffurfio â pholisïau Iechyd a Diogelwch a Chyfle Cyfartal y Brifysgol wrth gwblhau eich dyletswyddau.

- Cymryd gofal rhesymol o ran eich Iechyd a'ch Diogelwch eich hun ac Iechyd a Diogelwch unrhyw berson arall y gallai'ch gweithrediad neu'ch anweithredoedd yn y gwaith effeithio arno.

- Cydweithredu â'r Brifysgol Agored i sicrhau, cyn belled ag y bo angen, y cydymffurfir â Gofynion Statudol, Codau Ymarfer, Polisïau'r Brifysgol a threfniadau Iechyd a Diogelwch Adrannol.

- Dangos ymrwymiad cadarn i egwyddorion ac arfer cydraddoldeb ac amrywiaeth.

## Sgiliau a Phrofiad

### Hanfodol

- Gradd neu brofiad cyfatebol mewn disgyblaeth marchnata, cyfathrebu neu fusnes.

- Y gallu i ddefnyddio Adobe Photoshop / Illustrator (neu feddalwedd gyfatebol) i greu graffeg ar gyfer gwefannau a'r cyfryngau cymdeithasol.

- Y gallu i ffilmio / recordio, cynhyrchu a golygu fideo / sain gan ddefnyddio Adobe Premier Pro / Audition (neu feddalwedd gyfatebol).

- Profiad o greu cyhoeddiadau a dogfennau wedi'u brandio gan ddefnyddio Adobe InDesign (neu feddalwedd gyfatebol) a Microsoft Office.

- Y gallu i deilwra cynnwys yn briodol i gynulleidfaoedd a llwyfannau penodol, megis gwefannau (gan gynnwys optimeiddio peiriannau chwilio), y cyfryngau cymdeithasol a chyhoeddiadau.

- Profiad o ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ynghyd a dealltwriaeth o'r dirwedd gyfredol a datblygiadau/nodweddion llwyfannau newydd, a diddordeb ynddynt.

- Dealltwriaeth o'r broses o weithio i ganllawiau brand a chywair.

- Llygad craff iawn a'r gallu i weithio dan bwysau i fodloni terfynau amser tynn.
- Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar gwych.
- Yn gallu gweithio heb oruchwyliaeth, gan ddefnyddio blaengaredd a barn eich hun.
- Yn gallu gweithio ar brosiect lluosog, a gyda nifer o dimau prosiect a rhanddeiliaid.
- Yn meddwl yn greadigol, ac yn barod i fynd ati i gyfrannu syniadau newydd.
- Yn barod i weithio fel aelod gweithredol a chefnogol o dîm prysur.
- Yn meddu ar agwedd gadarnhaol, gan gynnwys bod yn agored i feithrin sgiliau newydd a gweithio gyda meddalwedd/llwyfannau newydd.
- Yn meddu ar sgiliau rheoli cydberthnasau i weithio ar draws timau a gydag amrywiaeth o randdeiliaid.
- Yn gwerthfawrogi'r gofynion i gynhyrchu asedau Marchnata Cyfathrebu yn ddwyieithog.

**Dymunol**

- Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.

- Profiad o weithio mewn amgylchedd dwyieithog, a rheoli cynnwys yn Gymraeg a Saesneg.

## Gwybodaeth ychwanegol bwysig

Efallai y bydd yn ofynnol i chi gyflawni dyletswyddau rhesymol eraill fel sy'n ofynnol o fewn natur dyletswyddau a chyfrifoldebau'r rôl, ar yr amod y caiff unrhyw newidiadau parhaol i natur y swydd fel arfer eu hymgorffori yn y Disgrifiad Swydd mewn termau penodol.

Disgwylir i bob aelod o'r staff wneud y canlynol:

- Cydymffurfio â pholisïau Iechyd a Diogelwch a Chyfle Cyfartal y Brifysgol wrth gwblhau ei ddyletswyddau

- Cymryd gofal rhesymol o ran ei Iechyd a Diogelwch ei hun ac Iechyd a Diogelwch unrhyw berson arall yr effeithir arno wrth fynd ati i gwblhau neu fethu â chwblhau dyletswyddau yn y gwaith

- Cydweithredu â'r Brifysgol Agored i sicrhau, cyn belled ag y bo angen, y cydymffurfir â Gofynion Statudol, Codau Ymarfer, Polisïau'r Brifysgol a threfniadau Iechyd a Diogelwch Adrannol
- Dangos ymrwymiad cadarn i egwyddorion ac arfer cydraddoldeb ac amrywiaeth.

### Y Brifysgol Agored yng Nghymru

Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau academaidd a chymorth i fyfyrwyr ac ymholwyr ledled y wlad. **Caiff ei ariannu drwy incwm ffioedd myfyrwyr a thrwy gymorth gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, ac mae'n gwasanaethu dros 16,000 o fyfyrwyr.**

Mae mwy na 180 o aelodau o staff Y Brifysgol Agored, sy'n cyflawni swyddogaethau gwahanol, yn gweithio yn ein swyddfa yng Nghaerdydd, gan gynnwys:

- Cyfarwyddwr Cymru a'i ddirprwyon sy'n gyfrifol am arwain a goruchwylio gwaith Y Brifysgol Agored yng Nghymru, gan gynnwys yr hyn a ddarperir gan staff cyfadrannau yng Nghymru;
- Staff academaidd, rheolwyr a chydlynwyr o'n cyfadrannau a'n hysgolion, sy'n datblygu'r cwricwlwm, yn cefnogi ac yn cydlynu dysgu ac yn sicrhau bod yna safbwynt Cymreig yn natblygiadau academaidd Y Brifysgol;
- Ein tîm Recriwtio a Chynorthwyo Myfyrwyr (Cymru) sy'n gweithio er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau a chymorth i fyfyrwyr ym mhob gweithgaredd yn llwyddiannus;
- Staff sy'n ymwneud â materion allanol, marchnata, ehangu mynediad ac ymgysylltu â chyflogwyr, sy'n ceisio tyfu ein hagenda cydweithio yng Nghymru a rhannu ein stori â'r cyhoedd yn ehangach;
- Y Tîm Rheoli Lleoliadau ledled y DU, sy'n gyfrifol am gaffael lleoliadau a gweithgareddau rheoli ar gyfer holl diwtorialau, arholiadau a chyfarfodydd ad hoc Y Brifysgol Agored yn y DU ac Ewrop Gyfandirol;
- Ein tîm o staff Gweithrediadau a Chymorth, sy'n sicrhau ein bod yn rhedeg yn esmwyth ac yn effeithiol o ddydd i ddydd.

Mae'r Brifysgol Agored yn ymrwymedig i gynnal presenoldeb pwerus a gweladwy yng Nghymru, gan gydweithio'n agos â darparwyr a sefydliadau addysgol eraill er mwyn cynnig cyfleoedd addysg uwch rhan-amser o ansawdd uchel drwy ddysgu o bell. Mae'r Brifysgol yn canolbwyntio ar weithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Cyngor Cyllido i ddiwallu anghenion economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Cymru.

Mae'n gyfnod cyffrous i ymuno â'r Brifysgol wrth iddi drawsnewid ei gweithrediadau ledled y DU ac adnewyddu ei hymagwedd academaidd.  Mae staff a leolir yng Nghymru yn ymwneud â'r gwaith o gynllunio a threfnu gweithrediadau ar raddfa fawr, gan ddefnyddio technoleg i gynhyrchu deunydd a gwybodaeth, a rheoli adnoddau yn effeithiol i gynhyrchu a darparu gwasanaethau'n brydlon. Mae'r holl staff yn canolbwyntio ar gynnal a gwella ein safonau uchel o gymorth i fyfyrwyr unigol ac mae ganddynt ethos gwasanaethau cwsmeriaid cryf.

Lleolir Y Brifysgol Agored yng Nghymru yn 18 Heol y Tollty, Caerdydd. Mae'n cymryd pum munud ar droed i'w chyrraedd o orsafoedd trenau a bysiau Caerdydd Canolog. Oherwydd ei lleoliad yng nghanol y ddinas, nid oes lleoedd parcio ar gael ond mae nifer o feysydd parcio gerllaw. I gael rhagor o wybodaeth am Y Brifysgol Agored yng Nghymru a'r Brifysgol, gweler gwefan Y Brifysgol Agored yng Nghymru yn www.open.ac.uk/wales/cy.

## Sut i Wneud Cais

I wneud cais, cofiwch gynnwys eich CV a datganiad personol heb fod yn fwy na 2000 o eiriau, yn nodi sut rydych yn bodloni Manyleb y Person. Yn eich datganiad, bydd yn rhaid i chi gyfeirio'n uniongyrchol at y maen prawf hanfodol a dymunol.

Anfonwch ffurflen gais, CV a datganiad personol i wales-recruitment@open.ac.uk. Ni dderbynnir unrhyw geisiadau sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad cau.

Os na fyddwch wedi clywed gennym o fewn wythnos i ddyddiad cau'r cais, dylech gymryd yn ganiataol nad ydych wedi cael eich dewis ar gyfer cyfweliad ar yr achlysur hwn, ond rydym yn ddiolchgar i chi am ddangos diddordeb ac yn eich annog i wneud cais am swyddi yn y dyfodol.

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau am y rôl, cysylltwch â Tom Poultney ar 029 20 26 27 16 a fydd yn trefnu amser cyfleus i'r rheolwr cyflogi gysylltu â chi am sgwrs.